**Ymateb i adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**Cynyddu Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru**

**Adroddiad Pwyllgor AC (3) 06-08 – Gorffennaf 2008**

# Argymhelliad i.

### a. Nodi pa adran yn y llywodraeth sy'n arwain y strategaeth *Dringo'n Uwch* ar gyfer cynyddu gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

### Argymhelliad wedi'i Dderbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau newydd o hyrwyddo gweithgarwch corfforol a fydd yn diwygio'r strategaeth bresennol, *Dringo'n Uwch,* ac yn ei datblygu. Yn y flwyddyn newydd, byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu strategol diwygiedig ar gyfer gweithgarwch corfforol a fydd yn pennu'r targedau a'r gweithredu y bydd ei angen i'w gwireddu. Ar lefel swyddogol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (DPHHP) fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu. Bydd y cynllun yn elfen bwysig yn ein fframwaith ehangach ar gyfer iechyd y cyhoedd, sef "Dyfodol Iachach", sy'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Meddygol. Bydd holl adrannau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at yr agenda polisïau allweddol hwn, gan gynnwys yr Adran Dreftadaeth. Bydd rhaglenni llwyddiannus iawn y Cyngor Chwaraeon yn cyfrannu hefyd. Ar lefel swyddogol, y Prif Swyddog Meddygol fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu, a bydd yn adrodd yn rheolaidd i'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Bydd y Gweinidog dros Dreftadaeth yn parhau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bolisïau a strategaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol o fewn Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd y Prif Swyddog Meddygol yn gweithio gyda swyddogion yr Adran Dreftadaeth i gefnogi'r Gweinidog dros Dreftadaeth yn y gwaith hwn. Rydym yn gweld trefniadau fel y rhain fel rhan naturiol o'r cydweithio sydd ei angen mewn meysydd polisi trawsbynciol o'r math hwn ar draws Llywodraeth y Cynulliad.

### b. Sefydlu grŵp llywio ar lefel uchel i gynnig yr arweiniad y mae ei ddirfawr angen, yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol.

### Argymhelliad wedi'i Dderbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu grŵp llywio uwch i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu strategol newydd i hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Bydd y grŵp hwn hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod y rhaglenni sy'n effeithio ar yr agenda gweithgarwch corfforol yn cael eu cydlynu'n well. Bydd y grŵp yn cynnwys uwch swyddogion polisi Adran Iechyd

y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd (AIGC); yr Adran Dreftadaeth, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (ESH); yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS); yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh). Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Meddygol sydd hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu Fframwaith Strategol ehangach Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru.

**c. Enwebu un o uwch swyddogion y llywodraeth i hyrwyddo gwaith yn ymwneud â gweithgarwch corfforol ar draws Llywodraeth y Cynulliad ac i gydgysylltu â rhanddeiliaid eraill i oruchwylio a chydlynu'r holl waith yn ymwneud â gweithgarwch corfforol yng Nghymru; yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod beirniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n awyddus i sicrhau bod ymyriadau polisi'r llywodraeth, sydd â'r nod o hyrwyddo gweithgarwch corfforol, yn cael eu cydlynu'n llawer mwy effeithiol. Yn ogystal â'r pwyllgor llywio uwch, byddwn hefyd yn enwi uwch swyddog a fydd yn arwain y gwaith ar y cyd o hyrwyddo a chydlynu gweithgarwch corfforol. Bydd y swyddog hwn yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wella'r gwaith o gydlynu ein polisïau ar draws y Cynulliad Cenedlaethol a chynyddu eu heffaith ar weithgarwch corfforol. Bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Meddygol.

**d. Diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau o fewn Llywodraeth y Cynulliad, ac ymhlith y partneriaid sy'n rhan o'r gwaith o gyflwyno'r agenda gweithgarwch corfforol, yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn**

Mae'r ymateb yn ei gwneud yn glir mai'r Gweinidog dros Dreftadaeth fydd yn gyfrifol am y polisi ar weithgarwch corfforol o fewn y Cabinet ac mai'r Prif Swyddog Meddygol fydd yn cydlynu'r gwaith sydd ar y gweill ar draws Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y cynllun gweithredu strategol newydd ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn diffinio rolau a chyfrifoldebau penodol er mwyn cynnal gweithgareddau gweithgarwch corfforol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymhlith ein partneriaid allanol. Bydd y cynllun gweithredu newydd hefyd yn esbonio sut mae ein gwaith ar weithgarwch corfforol yn rhan o'r Fframwaith Strategol ehangach ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, a sut y byddwn yn cynnal y gwaith hwnnw. Bydd hefyd yn cadarnhau cyfraniad allweddol y Cyngor

Chwaraeon, yn ogystal â'r gwaith a fydd yn cael ei gomisiynu gan fudiadau allweddol eraill.

**e. Ystyried y posibilrwydd o osod rhyw fath o ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gweithgarwch corfforol.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn yn Rhannol**

Bydd y mater hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ond ar hyn o bryd nid yw'r Gweinidogion o'r farn fod gofyn am offerynnau statudol ychwanegol er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda gweithgarwch corfforol. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol eisoes i gynhyrchu strategaethau iechyd a lles. Mae'r Gweinidogion yn awyddus i weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r angen i hyrwyddo gweithgarwch corfforol wrth ddatblygu'r strategaethau lleol hyn. Bydd y dulliau ar gyfer cyflawni hyn yn rhan bwysig o'r cynllun gweithredu newydd.

**Argymhelliad ii.**

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, a'r partneriaid sy'n cyflwyno'r strategaeth, gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd gan bwysleisio'r neges y bydd cymryd rhan mewn hyd yn oed ychydig o weithgarwch corfforol yn gwneud lles i'w hiechyd.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn**

Fel rhan o'i gwaith, bydd ymgyrch Her Iechyd Cymru 2008-2009 yn pwysleisio'r lles sy'n deillio o weithgarwch corfforol. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar annog aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn gwneud gweithgarwch corfforol o unrhyw fath i drio gwneud tipyn o ymarfer corff er mwyn gwella'u hiechyd. Mae Her Iechyd Cymru'n gweithio trwy'r cyfryngau a thrwy bartneriaid ledled Cymru. Bydd yr ymgyrch yn cael ei datblygu ymhellach ar ôl cael ei gwerthuso.

**Argymhelliad iii.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn prysuro i gynhyrchu'r cynllun gweithredu.**

**a. gan bennu sut y bydd adrannau a'r cyrff sy'n derbyn nawdd yn cydlynu'r gweithgareddau ar gyfer helpu i gynyddu gweithgarwch corfforol, ac yn adrodd arnynt**
**b. sicrhau ei fod yn ategu'r gwaith arall sy'n cael ei wneud ar y fframwaith strategol ar gyfer iechyd y cyhoedd**
**c. sicrhau ei fod yn cyfateb i'r arian y mae Llywodraeth y Cynulliad am ei roi**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn**

Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd. Mae is-grŵp thematig y Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd sy'n ymchwilio i weithgarwch corfforol wedi cyfarfod tair gwaith. Bydd ymgynghoriad eang yn cael ei gynnal â phartneriaid allweddol yn ystod yr hydref er mwyn paratoi'r cynllun gweithredu newydd a fydd yn ystyried yr argymhellion uchod. Bydd y drafodaeth a'r ymgynghoriad hwn yn hanfodol er mwyn ennill y gefnogaeth sydd ei hangen gan y partneriaid hyn. Y bwriad yw datblygu'r cynllun gweithredu strategol newydd ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch corfforol ochr yn ochr â Fframwaith Newydd Iechyd y Cyhoedd. Y nod yw cyhoeddi'r dogfennau hyn, a fydd yn cyd-fynd â'i gilydd, yng Ngwanwyn 2009.

**Argymhelliad iv**

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, a'r partneriaid sy'n cyflwyno'r strategaeth, gynnal adolygiad sylfaenol o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch corfforol; yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r adolygiad gynnwys:**

**a. Asesiad o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer seilwaith y canolfannau hamdden yng Nghymru.**

**b. Ystyried faint o gyfleusterau, ar y mwyaf, y mae angen eu darparu a faint o arian sydd ei angen i'w cynnal.**

**c. Rhoi cymorth ariannol i'r sector gwirfoddol.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn yn Rhannol**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu ei rhaglenni ariannu gweithgarwch corfforol fel rhan o'r gwaith ar ddatblygu cynllun gweithredu strategol diwygiedig ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Bydd hyn yn cynnwys yr arian sy'n cael ei roi i fudiadau gwirfoddol. Byddwn hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r gronfa dystiolaeth sydd wedi'i chreu gan Gyngor Chwaraeon Cymru yn sgil ei adolygiad o ganolfannau hamdden awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn mai camgymeriad ar hyn o bryd fyddai cysylltu'r gwaith o hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn rhy agos â'r gwaith o ariannu a darparu cyfleusterau chwaraeon arbenigol. Yr her yw annog pobl i gynnwys gweithgarwch corfforol yn eu bywyd bob dydd, er enghraifft trwy gerdded a seiclo.

**Argymhelliad v**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu'r argymhellion mewn perthynas â'r fenter Nofio am Ddim a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r adroddiad gwerthuso a gynhyrchwyd gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.**

**a. Dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu targedau cenedlaethol ar gyfer cymryd rhan yn unol â nodau'r cynllun.**

**b. Dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Chwaraeon werthuso'r cynllun i weld a yw wedi rhoi gwerth am arian.**

**c. Dylai'r arian sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol gan Gynulliad Cymru fod ynghlwm wrth berfformiad.**

**d. Dylai'r cynlluniau lleol *Nofio am Ddim* gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau fod yr holl amodau allweddol yn cael eu bodloni, gan gynnwys sefydlu system werthuso reolaidd.**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn yn Rhannol**

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o'r peilot Nofio am Ddim trwy Gyngor Chwaraeon Cymru, er mwyn asesu effeithiolrwydd a gwerth y cynllun a dysgu gwersi. Mae'r gweithgor a gafodd ei greu fel rhan o'r cynllun wedi ystyried canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso, ynghyd â pha gamau sydd angen eu cymryd i gynyddu effaith ac effeithiolrwydd y cynllun. Mae wedi cyflwyno'r canfyddiadau hyn i Lywodraeth y Cynulliad eu hystyried. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn gwerthuso'r cynllun o ran gwerth am arian yn ystod y cyfnod treialu. Rydym yn disgwyl y bydd yr holl waith hwn yn arwain at ddealltwriaeth newydd rhyngom a'r awdurdodau lleol, a fydd yn cynnwys datblygu systemau gwerthuso rheolaidd. Bydd y Gweinidogion hefyd yn cael eu gwahodd i ystyried goblygiadau ar gyfer ariannu cynnal y rhaglenni, o ystyried yr adroddiad gwerthuso a'r gwerthusiad gwerth am arian ar gyfer y cyfnod treialu. Yn sgil hyn, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran y cydbwysedd rhwng targedau cenedlaethol a thargedau lleol, ac ar ddulliau o gysylltu arian â pherfformiad.

**Argymhelliad vi**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â rhoi ei hymateb cychwynnol arferol i'n hadroddiad, yn paratoi adroddiad diweddaru, yn olrhain cynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion, cyn pen 12 mis ar ôl dyddiad ein gwrandawiad (h.y. 5 Mehefin 2009 fan bellaf)**

**Argymhelliad wedi'i Dderbyn**

Byddem yn croesawu'r cyfle i gyflwyno adroddiad diweddaru gerbron y Pwyllgor ar sail yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, erbyn 5 Mehefin 2009 fan bellaf.